

## Cofion

- Yr ydym yn codi amryw yn yr ofalaeth o flaen yr Arglwydd yn ein gweddïau heddiw eto. Estynnwn ein cydymdeimlad cywiraf â Robert Douglas Owen (Llanfair) a gweddill y teulu yn dilyn marwolaeth ei frawd, Gwynn. A'r un yw'n cydymdeimlad â Doreen Evans (Tanyfron) a'r teulu oll yn eu profedigaeth o golli mam, nain a hen nain annwyl iawn. Cyflwynwn hwy oll i ofal yr Arglwydd a gweddiwn y byddant yn adnabod cysur cwmni Duw a'i dangnefedd dros y dyddiau hyn.
- Anfonwn ein cofion hefyd at nifer o'n haelodau sydd heb fod yn dda eu hiechyd. Mae Harold Pierce (Llanefydd) bellach yn Ysbyty Broadgreen ac yn aros llawdriniaeth. Gweddiwn y bydd hynny'n digwydd yn fuan ac y bydd y cyfan yn llwyddiant, a'i iechyd yn cael ei adfer yn fuan iawn. Bydd hi'n ben-blwydd arbennig ar Harold ddydd Iau hefyd – dymunwn yn dda iawn iddo a hyderwn y daw cyfle iddynt gael dathlu yn fuan. Yn parhau yn Ysbyty Glan Clwyd y mae Trefor Jones (Cefn Meiriadog) a pharhawn i gofio amdano ef a'r teulu yn ein gweddïau. Mae Trefor wedi bod yn yr ysbyty ers cryn amser erbyn hyn a rhyfeddwn at ei sirioldeb trwy'r cyfan. Yn Ysbyty Glan Clwyd hefyd y mae Robert Roberts (Llanefydd) a Victor Vaughan (Saron). Hyderwn y byddant hwythau yn adnabod gofal a heddwch yr Arglwydd yn eu hangen. Cofiwn hefyd am Menna Owen (Cefn Meiriadog) a Heulwen Roberts (Henllan), y ddwy yn parhau i dderbyn gofal yn yr Inffirmari. Deallwn nad yw Irwyn Jones (Tanyfron) cystal ei iechyd y dyddiau hyn ac iddo dreulio amser yn yr ysbyty yn ddiweddar. Anfonwn ein cofion ato yntau. Cyflwynwn bawb sydd mewn angen i ofal yr Arglwydd, gan ofyn Iddo gysgodi drostynt, a gwylio dros eu hanwyliaid yr un modd.
- Rydym yn parhau i gofio hefyd am ffrindiau sydd mewn cartrefi gofal – Mr Aneurin Evans (Park Lodge); Mrs Myra Hughes a Mrs Menna Streeter (Maes Elwy); Miss W J Roberts (Yr Hen Ddeondy); Mrs Mair Roberts a Mr Harold Lloyd (Yr Hen Ficerdy); Mrs Enid Jones (Plas Ogwen); a Mr Howell Jones (Bryn yr Eglwys). Hyderwn eu bod yn profi gofal a grym ein gweddïau drostynt.

## Iddod

- Cyfarfod o **Christian Viewpoint** yng Nghanolfan Gymunedol Bae Cinmel nos Lun, Mawrth 12fed am 7.30 yng nghwmni Fiona Clarke, Cydlynnydd Prosiect Cymorth i Ferched Aberconwy. Thema ei sgwrs fydd "Codi Ymwybyddiaeth o Gamdrin yn y Cartref". Mynediad: £3 yn cynnwys bwffe. Mwy o fanylion gan Mair (870632).
- **Noson ddwyieithog i athrawon Ysgol Sul, arweinwyr plant a ieuentid a gweithwyr ysgolion** nos Fercher, Mawrth 14eg yng Nghapel Berea Newydd, Bangor LL57 2AX am 7.00 ac yng Nghapel Bethesda, Yr Wyddgrug Mai 23ain. Am fwy o fanylion, ffoniwch Gwyn Rhydderch ar 07979 860537.

## Llais Bro Aled

Dydd Sul, 4<sup>ydd</sup> Mawrth 2012

Beth am ymuno yn yr addoliad yn  
Festri Llansannan nos Fercher am  
8.00? Croeso i bawb.

[www.dawncymru.org](http://www.dawncymru.org)

[www.eglwysibroaled.com](http://www.eglwysibroaled.com)

[www.llanw.org](http://www.llanw.org)

Bore da, a chroeso i bawb ohonoch i'r oedfaon heddiw. Tybed faint ohonoch fu'n gweiddi ac yn cnoi'r ewinedd bnawn Sadwrn diwethaf? Na, dim ond fi felly?! (Ymddiheuriadau i'm cymdogion rhag ofn eu bod wedi clywed gweiddi cynhyrfus o Heulfryn!) Dwi'n siŵr fod llawer un ohonom wedi bod ar bigau'r drain cyn cael mwynhau llwyddiant Cymru yn cipio'r Goron Driphlyg wrth drechu Lloegr mewn gêm hynod o agos a chystadleuol. Yr hyn a'm trawodd i wrth edrych yn ôl dros y gêm oedd sut y llwyddodd Cymru i ennill er nad oedd hynny'n edrych yn debygol iawn am gyfran helaeth o'r amser! Nid yn unig roedd Lloegr yn chwarae'n arbennig o dda, ond aeth Cymru i lawr i 14 dyn am 10 munud hefyd. Rhaid cyfaddef mai dyna'r pwynt a wnaeth imi ddigalonni a chredu nad oedd gobaith am fuddugoliaeth. Ond, serch hynny, dangosodd y tîm benderfyniad a dyfalbarhad er gwaethaf sut oedd pethau'n edrych.

Mae hynny yn atgoffa rhywun o wers bwysig yn ein bywyd ninnau hefyd – rhaid dyfalbarhau yn ein ffydd, yn enwedig felly pan fo pethau'n edrych yn dywyll arnom. Rhaid i ni gofio pwy yw'n Harglwydd a bod pob peth yn bosibl gyda Duw. Meddylwch am Bartimeus y gwelir ei hanes yn Marc 10:46-52 – cardotyn dall heb obaith na chysur, a phan mae'r Arglwydd Iesu yn dod yn agos, mae'r dyrfa'n gwneud eu gorau i'w dawelu gan geisio'i atal rhag tynnu sylw Iesu! Ond beth wnaeth Bartimeus ond dyfalbarhau; gweiddi'n uwch fyth – 'Fab Dafydd, trugarha wrthyf!' Gwyddai mai'r Iesu'n unig allai gynnig gobaith a bywyd newydd iddo, ac felly er gwaethaf y rhwystrau a roddwyd ar ei ffordd, gwnaeth yn siŵr ei fod yn dod at Iesu gan bwysu arno am iachâd. Cafodd ei olwg yn ôl, a chanlynodd Iesu. Fel y gwnaeth tîm Cymru ddangos ymddiriedaeth yn eu gallu eu hunain, dangosodd Bartimeus ymddiriedaeth yng ngallu a thrugaredd Duw ym mherson Iesu. Gadewch i ninnau ddysgu'r un wers â Bartimeus, a bod yn daer yn ein haddoliad a'n dymuniad i ddod i adnabod ein Gwaredwr yn ddyfnach, a phwyso arno beth bynnag yw'r rhwystrau sydd o'n blaenau. Fel y dywed Hebreaid 12:1-2 'Gadewch i ninnau fwrw ymaith pob rhwystr, a'r pechod sy'n ein maglu mor rhwydd, a rhedeg yr yrfa sydd o'n blaen heb ddiffygio, gan gadw ein golwg ar Iesu, awdur a pherffeithydd ffydd.'

Rhodri

## Cyhoeddiadau

### Y Fro

- Sul yma • Cynhelir **Oedfa'r Fro** yn Llansannan am 6.00. Arweinir yr oedfa gan Huw Tan y Graig, bydd Aneurin yn pregethu a bydd paned i bawb yn dilyn yr oedfa.
- Llun • **CAP (Grŵp genod bl. 7-11)** yn y Granar yn Llansannan am 4.30.
- Mercher • **Adnabod Addoli** yn Festri Llansannan am 8.00.
- Iau • **Cyfarfod Plant** yn Llansannan am 3.15.
- **Astudiaeth Feiblaidd** dan arweiniad Tom Williams yn Llanefydd am 7.30.
- Sul nesaf • Cynhelir **Oedfa'r Fro** yn Llansannan am 6.00. Arweinir yr oedfa gan Ben Nuss, bydd Aneurin yn pregethu a bydd paned i bawb yn dilyn yr oedfa.

### Llanfair a Chefn Meiriadog

- Sul yma Cynhelir Cyfarfod Gweddi Byd-Eang yn Llanfair am 10.00 ac yng Nghefn Meiriadog am 2.00. Bydd Ysgol Sul yng Nghefn Meiriadog am 10.30 ac yn Llanfair am 11.00.
- Mercher Bydd cyfarfod o Gymdeithas Capel Llanfair yn y Neuadd Goffa am 7.30 yng nghwmni Bobi Owen, Dinbych.
- Sul nesaf Bydd Aneurin yn arwain oedfa i'r daith yn Llanfair am 2.00 ac yn bedyddio Owen Gwynedd, mab bach Ifor a Mari Lloyd, yn ystod y gwasanaeth. Cynhelir Ysgol Sul yng Nghefn Meiriadog am 10.30 ac yn Llanfair am 11.00.

### Llansannan

- Sul yma Bydd Aneurin yn arwain oedfa deuluol ac yn bedyddio Llyr Sion, mab bach Sion a Kaye Evans, yn ystod yr oedfa. Bydd Ysgol Sul yr oedolion yn dilyn am 11.10.
- Iau Cofiwch am Ginio Jangl am 12.00.
- Sul nesaf Bydd Rhodri yn arwain oedfa am 10.00 a bydd Ysgol Sul y plant yn cyd-redeg. Cynhelir Ysgol Sul yr oedolion am 11.10.

### Tanyfron a Nantglyn

- Sul yma Bydd Aneurin yn arwain oedfa yn Nantglyn am 2.00.
- Sul nesaf Bydd Rhodri yn arwain oedfa yn Nhanyfron am 2.00.

## Cyhoeddiadau

### Saron a Pheniel

- Sul yma Bydd y Parch Hugh Pritchard yn arwain oedfa i'r daith yn Saron am 2.00 a'r Ysgol Sul yn cyd-redeg. Bydd Pwyllgor i aelodau Capel Saron yn dilyn yr oedfa. Cynhelir yr Ysgol Sul ym Mheniel am 10.00.
- Sul nesaf Cynhelir Cyfarfod Gweddi Byd Eang y Chwiorydd ym Mheniel am 10.00 a'r Ysgol Sul am 2.00. Yn Saron, cynhelir Cyfarfod Gweddi Byd Eang y Chwiorydd am 10.00 a bydd Ysgol Sul y plant yn cyd-redeg. Bydd Pwyllgor i drefnu Sasiwn y Plant ar ôl y cyfarfod.

### Henllan a Groes

- Sul yma Bydd y Parch Hugh Pritchard yn arwain oedfa i'r daith yn Henllan am 3.15. Cynhelir Ysgol Sul yn Henllan a Groes am 10.00.
- Sul nesaf Cynhelir Gwasanaeth i gyflwyno Apêl Viva Guatemala yn Henllan am 10.00 a bydd yr Ysgol Sul am 2.00. Cynhelir Cyfarfod Gweddi Byd Eang y Chwiorydd yn Groes am 10.00 a bydd yr Ysgol Sul am 2.00.

### Llanefydd a Chefn Berain

- Sul yma Cynhelir Cyfarfod Gweddi Byd Eang y Chwiorydd yn Llanefydd ac yng Nghefn Berain am 2.00 a'r Ysgolion Sul am 10.00.
- Gwener Cynhelir Noson Gŵyl Ddewi Cymdeithas Capel Llanefydd yng nghwmni Iwan Price "Fferm Ffactor" ym Melin Brwcws am 7.00. Enwau i Manon Bryn Deunydd neu Rhian Ivy House HEDDIW, os gwelwch yn dda.
- Sul nesaf Bydd Aneurin yn arwain oedfa gymun i'r daith yng Nghefn Berain am 10.00. Bydd Ysgol Sul y plant yn cyd-redeg â gwasanaeth y bore yng Nghefn Berain a'r oedolion am 2.00. Cynhelir yr Ysgol Sul yn Llanefydd am 11.15.

### Dalier Sylw

Dylid danfon unrhyw gyhoeddiadau am yr wythnos i:

Mair – 📧 mair@eglwysibroaled.com ☎️ 01745 870632 📞 07900 627536,  
Rhodri – 📧 rhodri@eglwysibroaled.com ☎️ 01745 870522 📞 07814 660291 neu i  
Aneurin – 📧 aneurin@eglwysibroaled.com ☎️ 01745 870618 📞 07775 701102  
erbyn 9.00 nos Fercher fan bellaf.

### Eglwysi Bro Aled

Tystio i efengyl Duw, yn effeithiol ac yn gyfoes, drwy gyfeirio'n holl adnoddau i ddyrchafu Iesu, a chyrraedd ein cymunedau